OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)*

**308.** Ar ôl adran 125 (marwolaeth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol) mewnosoder—

*"Awdurdodaeth a gweithdrefn*

**Awdurdodaeth llysoedd**

**125A.** At ddibenion y Rhan hon, ystyr "llys" ("*court*") yw'r Uchel Lys neu lys teulu.

**Rheolau llys**

**125B.**—(1) Caiff awdurdod sydd â'r pŵer i wneud rheolau llys wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhoi effaith i—

(a) y Rhan hon, neu

(b) darpariaethau unrhyw offeryn statudol a wneir o dan y Rhan hon,

yr ymddengys i'r awdurdod hwnnw ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

(2) Mae adran 93 o Ddeddf Plant 1989 (rheolau llys) yn gymwys i reolau a wneir yn unol â'r adran hon fel y mae'n gymwys i reolau a wneir yn unol â'r adran honno.

Caiff y rheolau, yn benodol, wneud darpariaeth—

(a) mewn cysylltiad â'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn unrhyw achos perthnasol (gan gynnwys y modd y mae unrhyw gais i gael ei wneud neu y mae achos arall i gael ei ddechrau);

(b) o ran y personau sydd â hawlogaeth i gymryd rhan mewn unrhyw achos perthnasol, p'un ai fel partïon i'r achos neu drwy gael y cyfle i gyflwyno sylwadau i'r llys;

(c) i blant gael eu cynrychioli ar wahân mewn achos perthnasol;

(d) o ran y dogfennau a'r wybodaeth sydd i'w darparu, a'r hysbysiadau sydd i'w rhoi, mewn cysylltiad ag unrhyw achos perthnasol;

(e) mewn cysylltiad â gwrandawiadau rhagarweiniol;

(f) sy'n galluogi'r llys, o dan unrhyw amgylchiad a ragnodir, i barhau ag unrhyw gais er nad yw hysbysiad o'r achos wedi ei roi i'r ymatebydd.

(3) Yn is-adran (2)—

ystyr "a ragnodir" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi gan y rheolau;

ystyr "achos perthnasol" ("*relevant proceedings*") yw unrhyw gais a wneir, neu achos a ddygir, o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (1) ac unrhyw ran o achos o'r fath; ac

ystyr "hysbysiad o achos" ("*notice of proceedings*") yw gwŷs neu unrhyw hysbysiad arall o achos sy'n ofynnol; ac ystyr "rhoi" ("*given*"), mewn perthynas â gwŷs, yw "cyflwyno" ("*served*").

(4) Nid yw'r adran hon nac unrhyw bŵer arall yn y Ddeddf hon i wneud rheolau llys i gael ei gymryd fel pe bai'n cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod o dan sylw i wneud rheolau llys.

(5) Wrth wneud unrhyw reolau o dan yr adran hon, bydd yr awdurdod yn ddarostyngedig i'r un gofyniad o ran ymgynghori (os oes un) ag sy'n gymwys pan fydd yr awdurdod yn gwneud rheolau o dan ei bŵer cyffredinol i wneud rheolau.

**Preifatrwydd i blant sy'n rhan o achosion o dan y Rhan hon**

**125C.** Mae adran 97 o Ddeddf Plant 1989 (preifatrwydd i blant sy'n rhan o achosion penodol) yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n rhan o achosion o dan y Rhan hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas â phlant sy'n rhan o unrhyw achos o dan y Ddeddf honno.

**125D.**—(1) Rhaid i berson beidio â chyhoeddi i'r cyhoedd yn gyffredinol, nac i unrhyw ran o'r cyhoedd, unrhyw ddeunydd y bwriedir iddo sicrhau bod modd adnabod, neu sy'n debygol o olygu bod modd adnabod—

(a) unrhyw blentyn sy'n rhan o unrhyw achos gerbron yr Uchel Lys neu'r llys teulu y caiff unrhyw bŵer o dan y Ddeddf hon ei arfer ynddo gan y llys mewn cysylltiad ag unrhyw blentyn; neu

(b) cyfeiriad neu ysgol fel un plentyn sy'n rhan o unrhyw achos o'r fath.

(2) Mewn unrhyw achos am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo unrhyw reswm dros amau, fod y deunydd a gyhoeddwyd wedi ei fwriadu i sicrhau bod modd adnabod y plentyn, neu'n debygol o olygu bod modd adnabod y plentyn.

(3) Caiff y llys neu'r Arglwydd Ganghellor, os yw wedi ei fodloni bod lles y plentyn yn gwneud hynny yn ofynnol ac, yn achos yr Arglwydd Ganghellor, os yw'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno, drwy orchymyn hepgor gofynion is-adran (1) i'r graddau hynny a bennir yn y gorchymyn.

(4) At ddibenion yr adran hon—

mae "cyhoeddi" ("*publish*") yn cynnwys—

(a) cynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni (o fewn yr ystyr a roddir i "programme service" yn Neddf Darlledu 1990);

(b) achosi i'r deunydd gael ei gyhoeddi; ac

mae "deunydd" ("*material*") yn cynnwys unrhyw lun neu gynrychiolaeth.

(5) Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i'r adran hon yn euog o drosedd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(6) Caiff yr Arglwydd Brif Ustus enwebu deiliad swydd farnwrol (fel y diffinnir "judicial office holder" yn adran 109(4) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005) i arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (3)."